PRIF NEGESEUON YR ASESIAD LLESIANT

POBLOGAETH AC IAITH

Rhagwelir mwy o bobl dros 75 oed i'r dyfodol sy'n golygu fod angen cefnogi poblogaeth sy'n heneiddio a sicrhau bod unigolion yn aros yn iach am gyfnod hirach er lles yr economi a gwasanaethau iechyd a gofal.

Ystyrir Ynys Môn yn gadarnle i'r Gymraeg ond gwelir **gostyngiad yn y canran o siaradwyr dros y ddegawd ddiwethaf.** Mae cymunedau Ynys Môn yn poeni am yr effaith mae mudo, twristiaeth, argaeledd tai addas a fforddiadwy i bobl ifanc a theuluoedd yn ei gael ar y Gymraeg.

AMGYLCHEDDOL

Mae amgylchfyd naturiol amrywiol Ynys Môn yn adnodd pwysig. Mae arfordir, llynoedd ac afonydd, corsydd a choedwigoedd yn cael effaith bositif ar lesiant cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd.

Mae newid hinsawdd yn her fyd-eang sy'n cael effaith ar lesiant yn Ynys Môn. Mae'n arwain at gymunedau sydd o dan risg llifogydd uchel, tywydd eithriadol a thir lithriadau a rhoi ein byd natur a chynefinoedd o dan bwysau cynyddol.

Mae gwarchod byd natur a bioamrywiaeth yn bwysig er mwyn datgarboneiddio. Yn Ynys Môn ceir cynefinoedd a rhywogaethau amrywiol sy'n storio'r carbon sy'n cyfrannu at lefel nwyon tŷ gwydr.

Mae Ynys Môn o dan bwysau amaethyddol cymharol uchel ac mae ffermio anghynaladwy yn achosi niwed i'r amgylchedd. Mae angen edrych ar gyfleoedd i gefnogi rheoli tir yn gynaliadwy er mwyn cyfarnnu at datgarboneiddio.

CYMDEITHASOL

Mae pryder am lefel ordewdra ymysg plant 4-5 oed yn rhanbarthol. Mae tystiolaeth o Loegr a'r Alban yn awgrymu fod y ganran yn debygol o godi o ganlyniad i effaith Covid-19 a'r cyfnod clo.

Mae Covid-19 yn debygol o gael effaith hir-dymor ar iechyd y boblogaeth. Mae hyn yn cynnwys effaith ar iechyd meddwl a chorfforol (er enghraifft, Covid-Hir) a gwaethygu nifer o anghydraddoldebau iechyd oedd eisoes yn bodoli.

Amlygwyd diffyg trafnidiaeth gyhoeddus fel her enfawr i gymunedau cefn gwlad. Roedd amlder gwasanaethau bws yn golygu ei fod yn anodd i drigolion gyrraedd cyfleusterau a gwasanaethau, ac yn debygol o gael effaith waeth ar rai grwpiau, er enghraifft, pobl anabl, pobl ifanc a phobl hŷn.

Mae ysbryd cymunedol yn un o brif asedau'r sir ac amlygwyd hyn ym mharodrwydd trigolion i helpu ei gilydd yn ystod cyfnod Covid-19.

Mae diffyg cyswllt digidol yn rhwystr i bobl a busnesau'r sir. Mae gweithio ac addysgu o bell yn ystod cyfnod Covid-19 wedi amlygu pwysigrwydd argaeledd band-eang.

ECONOMAIDD

Rhagwelir newidiadau yn sectorau gwaith ac i batrwm gwaith i'r dyfodol. Mae angen sicrhau cyfleoedd hygyrch i bawb mewn galwedigaethau fel gwyddoniaeth a thechnoleg.

Mae'r canran uchel o bobl Ynys Môn yn gweithio yn y galwedigaethau crefftau medrus (sy'n cynnwys ffermwyr a gweithwyr amaeth). Mae Brexit a'r lleihad mewn grantiau a cefnogaeth ariannol wedi cael effaith ar y sector yma.

Mae tlodi o bob math yn bryder yn Ynys Môn. Roedd ymateb i'r llyfrynnau drafft yn amlygu pryder am dlodi, mewn cyfnod be mae costau byw o bob math yn codi.

Mae prisiau a fforddadwyedd tai yn broblem mewn rhai ardaloedd yn Ynys Môn. Mae'nn cael effaith negyddol ar lesiant cymdeithasol, diwylliannol, ieithyddol ac economaidd ardaloedd.

Mae pryder am gyflwr economi leol y 'y stryd fawr' neu 'canol y dref'. Amlygwyd hyn yn bennaf yn Ardal Llesiant Caergybi ac Ynys Cybi.

O'i gymharu â ffigwr Cymru gyfan, mae canran uchel o adawyr ysgol blwyddyn 11 yn Ynys Môn yn NEET (gwyddys sydd ddim mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant)

Mae diffyg swyddi gwerth uchel yn cael effaith ar lesiant yr ardal. Yn ogystal â'i effaith ar yr economi, mae hefyd yn ei gwneud yn anoff i gadw pobl ifanc yn y sir, ac felly'n effeithio'r iaith Gymraeg.

Mae darpariaeth gofal plant yn ddrapariaeth pwysig i economi Ynys Môn. Mae diffyg darpariaeth cynaliadwy yn effeithio cymunedau mewn rhai ardaloedd o'r sir ac mae hefyd pryder am y nifer o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg sydd ar gael.

DIWYLLIANNOL

Mae'r amgylchedd naturiol yn addnodd holl bwysig sy'n cyfrannu at lesiant ac iechyd gan eu bod yn galluogi trigolion aros yn actif.

Mae diffyg gweithgareddau i blant a phobl ifanc yn bryder i gymunedau Ynys Môn. Mae canfyddiad fod hyn yn arwain at ymddygiad gwrthgymdeithasol ac yn golygu fod pobl ifanc y fro yn llai awyddus i aros yn y sir

Mae'n anodd asesu effaith Covid-19 ar ddigwyddiadau diwylliannol a celfyddydol. Mae'n fwlch data sydd angen sylw.

Mae mannau gwyrdd yn holl bwysig i lesiant trigolion Môn, ond mae angen gwneud yn siwr fod mynediad hygyrch iddynt fel bod modd i bawb eu defnyddio.